Joint Council for Qualifications

# Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu

## Yn weithredol o gyfres arholiadau Mehefin 2024

## At sylw penaethiaid canolfannau, arweinwyr hŷn mewn ysgolion a cholegau, swyddogion arholiadau, a staff addysgu

**Cynhyrchwyd ar ran:**

©JCQ[CIC] 2024

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| 1 Apeliadau yn erbyn canlyniadau gwasanaethau ar ôl y canlyniadau (ail-wiriadau clerigol, adolygiadau o farcio ac adolygiadau o gymedroli) | 3 |
| 2 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir mewn achosion o gamymddwyn | 7 |
| 3 Apeliadau sy'n ymwneud â threfniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig | 8 |
| 4 Y weithdrefn ar gyfer gwrandawiadau apêl | 10 |
| 5 Llwybrau apelio pellach | 14 |
| 6 Amserlenni | 14 |
| 7 Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill | 14 |
| 8 Cais am apêl neu adolygiad o benderfyniad gweinyddol (Ffurflen JCQ/App1) | 16 |
| Atodiad A – Manylion cyswllt cyrff dyfarnu | 22 |

# Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prosesau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan gyrff dyfarnu'r CGC mewn perthynas â'r canlynol:
    - AEA
    - Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
    - Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA
    - AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
    - AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
    - Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
    - Cymwysterau Technegol Caergrawnt
    - Cymwysterau Technegol Lefel 2 a Lefel 3 City & Guilds (asesiadau allanol ac asesiadau wedi'u cymedroli yn unig)
    - Dyfarniadau Edexcel mewn Mathemateg
    - Safon Uwch Ryngwladol Edexcel
    - TGAU Rhyngwladol Edexcel
    - TLM
    - Sgiliau Hanfodol (Cymru)
    - FSMQ
    - TAG UG a Safon Uwch
    - TGAU
    - Sgiliau Gweithredol Lefel Mynediad 3 Lefel 1 a 2 NCFE (asesiad allanol yn unig)
    - Cymwysterau Galwedigaethol (Dyfarniad Technegol) Lefel 1, 2 a 3 NCFE
    - Diplomâu/Diplomâu Estynedig Lefel 3 NCFE (asesiad allanol yn unig)
    - BTEC Pearson (asesiadau allanol ac asesiadau wedi'u cymedroli yn unig)
    - Cymwysterau Project
    - Cymwysterau Technegol Lefel T*
    - CBAC Llwybrau Mynediad
    - CBAC Llwybrau Ieithoedd
    - CBAC Cymraeg Gwaith
    - CBAC Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2
    - CBAC Cymwysterau Galwedigaethol (Dyfarniad Technegol) Lefel 1 a Lefel 2
    - CBAC Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)
    - CBAC Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a 2
    - CBAC Cymwysterau Tystysgrif a Diploma Cymhwysol Lefel 3
    - CBAC Tystysgrif Her Sgiliau (Bagloriaeth Cymru).

    *Cyfeiriwch hefyd at ddogfennau apeliadau penodol y corff dyfarnu.

    Os nad yw’r cymhwyster sy'n berthnasol i chi ar y rhestr uchod, yna dylech gyfeirio at ddogfennau'r corff dyfarnu unigol.

2. Mae'r gweithdrefnau hyn yn bodloni gofynion y tri rheoleiddiwr cymwysterau ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (Ofqual, Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation): mae eu dogfennaeth reoleiddiol yn sail i brosesau apêl y cyrff dyfarnu.

3. Mae cyrff dyfarnu yn derbyn apeliadau'n ymwneud â thri maes o'u gwaith. Y rhain yw:

    - Apeliadau yn erbyn canlyniadau – **gweler tudalen 3**.

    - Apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn – **gweler tudalen 7**.

    - Apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed o ran trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig **–** **gweler tudalen 10.**

    Yn ogystal â hyn, efallai y bydd rhai penderfyniadau gweinyddol eraill, fel achosion o sgriptiau'n mynd ar goll, yn amodol ar adolygiadau gan swyddogion y corff dyfarnu.

4. Mae gan y ddogfen hon adran ar wahân ar gyfer pob math o apêl. Gan fod tebygrwydd yn y ffordd mae'r holl apeliadau'n cael eu trin, bydd hyn yn arwain at rywfaint o ailadrodd gwybodaeth.

5. Os yw canolfan am ymholi neu drafod unrhyw agwedd ar ddehongliad y corff dyfarnu neu'r ffordd mae'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon yn cael eu defnyddio, dylid cysylltu â swyddog apeliadau'r corff dyfarnu perthnasol (**gweler Atodiad A, tudalen 22**).

6. Gall cyrff dyfarnu godi ffi am bob cam o apêl yn erbyn canlyniad ail-wiriad clerigol, adolygiad o farcio neu adolygiad o gymedroli. Mae manylion am y ffioedd hyn ar gael gan y corff dyfarnu dan sylw. Ad-delir y ffi os cadarnheir yr apêl.

# 1 Apeliadau yn erbyn canlyniadau gwasanaethau ar ôl canlyniadau (ail-wiriadau clerigol, adolygiadau o farcio ac adolygiadau o gymedroli)

### Pwy sy'n gallu apelio a phryd?

7. **Rhaid** i **bennaeth y ganolfan** gyflwyno apeliadau ar gyfer ymgeiswyr mewnol.

   Gall pennaeth y ganolfan apelio yn erbyn canlyniad ail-wiriad clerigol, adolygiad o farcio neu adolygiad o gymedroli. Wrth gydsynio i ail-wiriad clerigol neu adolygiad o farcio, mae ymgeisydd hefyd yn cadarnhau ei fod yn deall mai canlyniad unrhyw apêl ddilynol fyddai y gallai ei radd derfynol yn y pwnc a/neu ei farc terfynol fod yn is, yn uwch, neu'n aros yr un peth â'r radd a ddyfarnwyd yn wreiddiol.

   Gall ymgeiswyr preifat gyflwyno cais am apêl yn uniongyrchol i gorff dyfarnu. Gallan nhw hefyd apelio yn erbyn canlyniad ail-wiriad clerigol neu adolygiad o farcio.

   Diffiniad ymgeisydd preifat yw myfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer pwnc gan y ganolfan ond sydd heb gael ei addysgu yn y pwnc yn y ganolfan yn ystod y flwyddyn academaidd y digwyddodd y gyfres arholiadau. Gallan nhw fod wedi cael eu haddysgu yn y ganolfan mewn pynciau gwahanol neu yn yr un pwnc ar gyfer cyfres arholiadau flaenorol.

   Wrth gyflwyno cofrestriad ar gyfer ymgeisydd preifat, dylai'r ganolfan sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y corff dyfarnu perthnasol ei fod yn achos dilys. Mae hyn yn bwysig gan y bydd yn sicrhau bod y corff dyfarnu'n gallu nodi bod cais am apêl mewn perthynas â'r pwnc hwnnw, sy'n cael ei gyflwyno i'r corff dyfarnu yn uniongyrchol gan yr ymgeisydd preifat, yn gymwys i'w brosesu.

8. Noder **nad** oes gan ymgeiswyr mewnol a/neu eu rhieni/gofalwyr hawl i apelio'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu. **Rhaid** cyflwyno sylwadau i bennaeth y ganolfan lle mae'r ymgeisydd wedi'i gofrestru. Bydd penderfyniad pennaeth y ganolfan ar p'un a ddylid symud ymlaen ag apêl yn dibynnu ar drefniadau apeliadau mewnol y ganolfan. Dim ond dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, er enghraifft cau canolfan yn barhaol, y bydd corff dyfarnu'n erbyn apêl yn uniongyrchol gan ymgeisydd mewnol.

9. **Ni ddylai** pennaeth y ganolfan na'r ymgeisydd preifat gyflwyno apeliadau tan y bydd canlyniad y gwasanaeth ar ôl y canlyniadau perthnasol wedi'i gadarnhau.

10. Gellir cyflwyno apêl os yw'r Apelydd, pennaeth y ganolfan neu ymgeisydd preifat sy'n cyflwyno'r apêl, yn ystyried naill ai:

    - bod gwall marcio neu gymedroli (neu adolygiad o farcio/cymedroli) wedi digwydd; neu
    - na wnaeth y corff dyfarnu gymhwyso ei weithdrefnau yn gyson, yn briodol neu'n deg.

11. Mae Amodau Lefel Cymhwyster Ofqual yn diffinio rhesymau dros apelio gwall marcio a gwall cymedroli fel a ganlyn:

**Gwall Marcio:**

"Diffinnir gwall marcio fel dyfarnu marc na ellid yn rhesymol fod wedi'i ddyfarnu o ystyried y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwr, y meini prawf sy'n gwahaniaethu perfformiad y Dysgwr ac unrhyw un o weithdrefnau'r corff dyfarnu mewn perthynas â marcio, gan gynnwys yn benodol lle mae dyfarnu marc yn seiliedig ar y canlynol –

- gwall gweinyddol;
- methiant i gymhwyso meini prawf a gweithdrefnau o'r fath at y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwr/Dysgwyr lle nad oedd y methiant hwnnw yn cynnwys arfer barn academaidd; neu
- arfer barn academaidd yn afresymol."

**Gwall Cymedroli:**

"Diffinnir gwall cymedroli fel dod at ganlyniad cymedroli na allai fod wedi'i gyrraedd yn rhesymol o ystyried y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwyr a gafodd ei hystyried at ddibenion Cymedroli, gwaith marcio'r ganolfan ar y dystiolaeth honno, y meini prawf sy'n gwahaniaethu perfformiad y Dysgwyr ac unrhyw un o weithdrefnau'r corff dyfarnu mewn perthynas â chymedroli, gan gynnwys yn benodol lle mae dod at ganlyniad cymedroli yn seiliedig ar y canlynol -

- gwall gweinyddol;
- methiant i gymhwyso meini prawf a gweithdrefnau o'r fath at y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwr/Dysgwyr lle nad oedd y methiant hwnnw yn cynnwys arfer barn academaidd; neu
- arfer barn academaidd yn afresymol."

Barn academaidd yw beth sydd ynghlwm wrth asesu. Mae'n rhesymol y gall arholwyr gwahanol ddod i farn wahanol. Mae afresymoldeb mewn barn academaidd yn digwydd pan fo'r marc a roddwyd yn un na fyddai unrhyw arholwr rhesymol wedi gallu ei ddyfarnu'n iawn.

12. Os bydd cais am apêl yn cael ei dderbyn, bydd ymchwiliad i ganlyniadau ymgeisydd neu ganolfan a/neu weithdrefnau'r corff dyfarnu'n dilyn. **Ni fydd** apeliadau a dderbynnir i'w hymchwilio ar sail weithdrefnol yn cynnwys adolygiad pellach o waith yr ymgeiswyr.

13. Os oedd copi caled gwreiddiol o sgript wedi'i ddychwelyd i'r ganolfan o dan y gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau, **ni all** fod yn rhan o adolygiad o farcio neu apêl ddilynol.
Fodd bynnag, os cafodd copi wedi'i sganio o'r sgript ei gynhyrchu gan y corff dyfarnu ar adeg marcio, gellir defnyddio hwn fel sail ar gyfer y prosesau hyn.

## Sut i apelio

14. Dylai pennaeth y ganolfan neu ymgeisydd preifat (yr Apelydd) gyflwyno cais ysgrifenedig am apêl i'r corff dyfarnu perthnasol. Dylai'r Apelydd gadarnhau'r trefniadau penodol ar gyfer cyflwyno apeliadau, ar wefan y corff dyfarnu perthnasol. Mae rhestr o fanylion cyswllt y cyrff dyfarnu ar gael yn **Atodiad A, tudalen 22**. Gellir defnyddio ffurflen y CGC *Cais am apêl* (**gweler tudalen 19**).

15. **Rhaid gwneud apeliadau o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r corff dyfarnu gyhoeddi canlyniad yr ail-wiriad clerigol, adolygiad o farcio neu adolygiad o gymedroli ("y Canlyniad").**

Os yw'r rhesymau am y Canlyniad a/neu gopi o'r sgript(iau) wedi'u darparu o fewn 15 diwrnod calendr ar ôl i'r corff dyfarnu gyhoeddi'r Canlyniad, mae'n rhaid cyflwyno cais am apêl o fewn 30 diwrnod calendr o dderbyn y Canlyniad.

Os yw'r rhesymau dros y Canlyniad a/neu gopi o'r sgript(iau) wedi'u darparu ar ôl 15 diwrnod calendr ar ôl i'r corff dyfarnu gyhoeddi'r Canlyniad, mae'n **rhaid** cyflwyno cais am apêl o fewn 15 diwrnod calendr i'w derbyn.

16. Mae'n **rhaid** i'r Apelydd nodi'r rhesymau dros apelio yn glir ac yn gryno.

17. Pan fydd cais am apêl yn cael ei dderbyn, bydd y corff dyfarnu yn penderfynu p'un a fydd yn cael ei dderbyn ai peidio.

18. Mae'r penderfyniad a ddylid derbyn y cais am apêl yn seiliedig ar y canlynol:
    - dilysrwydd y rhesymau dros yr apêl fel y'i cyflwynwyd gan yr Apelydd;
    - p'un a yw ail-wiriad clerigol, adolygiad o farcio neu adolygiad o gymedroli wedi'i gwblhau;
    - amserlen y cais.

Os derbynnir cais am apêl, bydd yr apêl yn symud ymlaen i'r cam rhagarweiniol.

Os na dderbynnir cais am apêl, bydd y rheswm/rhesymau dros hyn yn cael eu rhoi.

## Beth sy'n digwydd yn ystod cam rhagarweiniol apêl?

19. Mae'r cam rhagarweiniol yn cynnwys ystyriaeth o'r achos gan swyddog o'r corff dyfarnu nad yw wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol neu nad oes ganddo ddiddordeb personol yn y mater. Bydd y cam hwn yn cynnwys ystyried y cais ysgrifenedig gan yr Apelydd.

20. Ar ôl y cam rhagarweiniol, bydd yr achos naill ai ddim yn cael ei gadarnhau neu yn cael ei gadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

21. Os yw'r achos yn cael ei gadarnhau, bydd unrhyw waith angenrheidiol pellach ar sgript neu ganlyniadau'r ymgeisydd yn cael ei wneud. Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei gynnal drwy gydymffurfio'n llawn â gofynion y rheoleiddwyr a'r cyrff dyfarnu ac yn ôl y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt rhwng byrddau'r CGC.

22. Bydd llythyr canlyniad y cam rhagarweiniol gyda rhesymau yn cael ei anfon at yr Apelydd. Bydd y llythyr hefyd yn rhoi manylion am y cam nesaf sydd ar gael o'r broses apeliadau. Yn dilyn y cam rhagarweiniol, gall yr Apelydd symud yr apêl ymlaen i wrandawiad.

Yr Apelydd yw pennaeth y ganolfan neu ymgeisydd preifat sy'n cyflwyno'r apêl.

## Gwrandawiadau apêl

23. Os yw'r Apelydd am symud ymlaen i gam nesaf yr apêl (gwrandawiad), **rhaid** iddyn nhw anfon cais ysgrifenedig am wrandawiad apêl at y corff dyfarnu perthnasol. Dylai'r Apelydd gadarnhau'r trefniadau penodol ar gyfer cyflwyno apeliadau ~~–~~ ar wefan y corff dyfarnu perthnasol. Mae rhestr o fanylion cyswllt y cyrff dyfarnu ar gael yn **Atodiad A, tudalen 22.** Gellir defnyddio ffurflen y CGC *Cais am apêl* (**gweler tudalen 19**).

24. **Rhaid cyflwyno cais am wrandawiad apêl o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn llythyr canlyniad yr apêl ragarweiniol. Bydd cyrff dyfarnu fel arfer yn gwrthod apeliadau a wneir y tu allan i'r amserlen hon.**

25. Mae gwrandawiad apêl wedi'i lunio i sicrhau bod gan Apelydd gyfle ffurfiol i gyflwyno'i achos i gorff diduedd. **Rhaid** i aelod o staff y ganolfan gynrychioli'r ganolfan yng ngwrandawiad yr apêl ar gyfer apeliadau ymgeiswyr mewnol.

**Ni all** ymgeisydd mewnol, ei riant/gofalwr neu drydydd parti gynrychioli'r ganolfan mewn gwrandawiad apêl.

**Nid** ymarfer ailfarcio yw gwrandawiad apêl ac **ni fydd** Aelodau'r Panel yn arfer eu barn academaidd eu hunain. **Nid** arbenigwyr deunydd pwnc yw Aelodau'r Panel.

Mae'r weithdrefn i'w dilyn yng ngwrandawiad yr apêl wedi'i nodi ym **mharagraffau 55-78.**

# 2 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir mewn achosion o gamymddwyn

## Cyflwyniad

26. Mae camymddwyn, camweinyddu neu ddiffyg cydymffurfio, yn cynnwys unrhyw weithred, diffyg neu arfer sy'n torri'r rheoliadau a gyhoeddwyd gan y CGC a gofynion y corff dyfarnu yn cynnwys, er enghraifft, y rheini sy'n:

- cyfaddawdu, ceisio cyfaddawdu neu'n gallu cyfaddawdu'r broses asesu, uniondeb unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif; **a/neu**
- niweidio awdurdod, enw da neu hygrededd unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, gweithiwr neu asiant unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan.

27. Mae penderfyniadau cyrff dyfarnu mewn achosion o gamymddwyn yn seiliedig ar gytundeb rhwng y byrddau sy'n cael ei adlewyrchu yn nogfen y CGC *Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau*.
Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o wefan CBAC:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

28. Caiff penderfyniadau mewn achosion o gamymddwyn honedig eu gwneud fel arfer gan aelod o dîm ymroddedig o swyddogion wedi'u hyfforddi yn y corff dyfarnu perthnasol. Mewn achosion o gamymddwyn difrifol, gall pwyllgor o uwch swyddogion neu bwyllgor allanol wneud y penderfyniad.

29. Gellir cychwyn apeliadau yn erbyn canfyddiad o gamymddwyn a/neu'r sancsiwn a osodwyd gan y corff dyfarnu. **Nid yw'n bosibl apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chymryd unrhyw gamau nac yn erbyn sancsiwn y credir ei fod yn rhy hael**.

## Pwy all apelio?

30. Gall pennaeth y ganolfan apelio yn erbyn canfyddiad o gamymddwyn a/neu'r sancsiwn a osodwyd ar y ganolfan neu aelodau o staff (gan gynnwys gweithwyr dan gontract), ac ar ran ymgeiswyr a gofrestrwyd neu a ymrestrwyd drwy'r ganolfan.

    **Rhaid** i bennaeth y ganolfan roi gwybod i ymgeiswyr ei fod/ei bod yn cyflwyno apêl ar eu rhan. Gall yr ymgeisydd gyflwyno datganiad.

31. Gall aelod o staff y ganolfan neu bersonél dan gontract mewn canolfan (e.e. goruchwyliwr allanol) apelio yn erbyn canfyddiad o gamymddwyn a/neu'r sancsiwn a osodwyd arnyn nhw.

32. Gall ymgeisydd preifat, neu drydydd parti (h.y. unigolyn ar wahân i ymgeisydd mewnol neu ei rieni/gofalwyr), apelio yn erbyn canfyddiad o gamymddwyn a/neu'r sancsiwn a osodwyd arno/arni yn uniongyrchol i'r corff dyfarnu perthnasol.

33. Noder **nad** oes gan ymgeiswyr mewnol a/neu eu rhieni/gofalwyr hawl i apelio'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu. **Rhaid** cyflwyno sylwadau i bennaeth y ganolfan lle mae'r ymgeisydd wedi'i gofrestru. Bydd penderfyniad pennaeth y ganolfan ar p'un a ddylid cyflwyno cais am apêl yn dibynnu ar drefniadau apeliadau mewnol y ganolfan. Dim ond dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, er enghraifft cau canolfan yn barhaol, y bydd corff dyfarnu'n erbyn apêl yn uniongyrchol gan ymgeisydd mewnol.

## Sut i apelio

34. Dylai'r Apelydd gyflwyno cais am apêl i'r corff dyfarnu perthnasol. Mae manylion cyswllt cyrff dyfarnu wedi'u cynnwys yn Atodiad A, **tudalen 22.** Dylai'r Apelydd gadarnhau'r trefniadau penodol ar gyfer cyflwyno apeliadau, ar wefan y corff dyfarnu perthnasol. Gellir defnyddio ffurflen y CGC *Cais am apêl* (**gweler tudalen 19**).

35. **Mae'n rhaid i geisiadau am apêl gael eu gwneud o fewn 14 diwrnod calendr ar ôl derbyn y penderfyniad am gamymddwyn. Bydd cyrff dyfarnu fel arfer yn gwrthod apeliadau a wneir y tu allan i'r amserlen hon.**

36. **Rhaid** i'r Apelydd sy'n cyflwyno'r cais am apêl nodi mor glir a chryno â phosibl beth yw'r rhesymau dros yr apêl a **rhaid** cynnwys unrhyw dystiolaeth bellach sy'n berthnasol i gefnogi'r apêl.

37. **Rhaid** seilio apeliadau ar resymau synhwyrol sy'n berthnasol i'r digwyddiad dan sylw. Derbynnir y canlynol fel rhesymau synhwyrol:

- ni ymdriniwyd â'r digwyddiad yn unol â'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd yn nogfen y CGC, *Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau;*
- roedd y penderfyniad yn afresymol o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Camymddwyn;
- mae mwy o dystiolaeth (yn cynnwys tystiolaeth feddygol) wedi dod i'r amlwg a all newid penderfyniad y corff dyfarnu;
- mae'r sancsiwn a osodwyd yn anghymesur â difrifoldeb y camymddwyn.

38. Nid yw'r canlynol, ar eu pen eu hunain, yn creu sail ar gyfer apêl:

- nid oedd yr unigolyn yn bwriadu twyllo;
- mae gan yr unigolyn hanes academaidd di-fai;
- gallai'r unigolyn golli lle mewn Sefydliad Addysg Bellach/Sefydliad Addysg Uwch neu gyflogaeth;
- mae'n ddrwg iawn gan yr unigolyn am ei weithredoedd.

## Beth sy'n digwydd yn ystod ymchwiliad apêl camymddwyn?

39. Pan dderbynnir cais am apêl, mae'n cael ei wirio gan y corff dyfarnu. Mae'r cyd-destun a'r rhesymau dros yr apêl a'r ddogfennaeth ategol yn cael eu gwirio am ddilysrwydd a sut gellir prosesu'r apêl orau. **Mae'n bwysig fod yr holl ddogfennaeth berthnasol yn cael ei chynnwys ar y pwynt hwn, gan y bydd cyfleoedd cyfyngedig i gyflwyno gwybodaeth ategol yn ddiweddarach yn y broses.**

Bydd y corff dyfarnu'n cysylltu â'r Apelydd i gydnabod eu bod wedi derbyn yr apêl ac i roi cyngor ar y broses y dylid ei dilyn. Mae'r corff dyfarnu'n cadw'r hawl i hysbysu penaethiaid canolfannau lle bo'n berthnasol.

40. Gall y corff dyfarnu:

- gyfeirio'r mater ar gyfer ei ystyried o'r newydd at unigolyn priodol nad yw wedi ymwneud â'r mater yn flaenorol neu nad oes ganddo ddiddordeb personol yn y mater. Ar y cam hwn, gellir peidio â chadarnhau'r apêl, neu ei gadarnhau yn gyfangwbl neu'n rhannol. Os yw'r Apelydd yn dal i fod yn anfodlon â chanlyniad yr ystyriaeth hon, gall symud ymlaen at wrandawiad apêl. **Rhaid cyflwyno cais am wrandawiad apêl o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn llythyr canlyniad yr apêl ragarweiniol. Bydd cyrff dyfarnu'n gwrthod apeliadau a wneir y tu allan i'r amserlen hon.**
- cyfeirio'r mater i wrandawiad apêl. Bydd y weithdrefn i'w dilyn yng ngwrandawiad yr apêl yn cyfateb i'r hyn sy'n cael ei nodi ym **mharagraffau 55-78;**
- peidio â derbyn yr apêl am ymchwiliad oherwydd nad oes rhesymau dilys a rhesymol dros apelio wedi'u rhoi.

# 3 Apeliadau sy'n ymwneud â threfniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig

## Cyflwyniad

41. Mae'r cyrff dyfarnu'n cydnabod bod rhai ymgeiswyr yn cael eu hatal rhag arddangos eu cyrhaeddiad oherwydd:

- anabledd, anhawster dysgu neu gyflwr meddygol parhaol neu dymor hir;
- anabledd, afiechyd neu anhwylder tymor byr yn syth ar ôl neu ar adeg yr arholiad;
- amgylchiadau ar adeg neu yn ystod yr arholiad neu asesiad.

42. **Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol** yw **addasiadau cyn yr arholiad** sy'n cael eu cymeradwyo cyn arholiad neu asesiad. Maen nhw'n caniatáu i ymgeiswyr ag anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro gael mynediad i'r arholiad neu asesiad.

43. **Ystyriaeth arbennig** yw addasiad i farc neu radd ymgeisydd i adlewyrchu afiechyd dros dro, anaf neu anhwylder arall **ar adeg yr asesiad neu arholiad**.

44. Mae trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol a phenderfyniadau ystyriaeth arbennig yn seiliedig ar weithdrefnau rhwng cyrff dyfarnu. Gosodir yr egwyddorion a'r rheoliadau sy'n llywodraethu trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig yn nogfennau'r CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* a *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*. Mae'r dogfennau hyn i'w cael ar wefan CBAC: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

45. Os yw pennaeth y ganolfan neu'r ymgeisydd preifat sy'n destun i'r penderfyniad perthnasol ('yr Apelydd') yn anghytuno â'r penderfyniad a wnaed, ac o'r farn resymol nad yw'r corff dyfarnu wedi dilyn y gweithdrefnau cywir, dylid anfon cais ysgrifenedig at y corff dyfarnu priodol yn nodi'r rhesymau dros gyflwyno apêl ragarweiniol. Dim ond ar ôl cyfeirio at y ddogfen briodol sy'n amlinellu'r penderfyniad o ran trefniadau mynediad, addasiad(au) rhesymol neu ystyriaeth arbennig sy'n gymwys i ymgeisydd neu ymgeiswyr y dylai wneud hyn. Dylai'r Apelydd edrych ar wefan y corff dyfarnu perthnasol i gadarnhau'r trefniadau penodol ar gyfer cyflwyno apeliadau. Mae rhestr o fanylion cyswllt y cyrff dyfarnu ar gael yn **Atodiad A, tudalen 22.** Gellir defnyddio ffurflen y CGC ***Cais am apêl*** (**gweler tudalen 19**).

## Pwy all apelio?

46. Pennaeth y ganolfan yn unig all wneud ceisiadau am apêl ar ran ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr preifat.

47. **Nid oes** gan ymgeiswyr mewnol, eu rhieni/gofalwyr neu drydydd partïon hawl i apelio'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu. **Rhaid** cyflwyno sylwadau i bennaeth y ganolfan lle mae'r ymgeisydd mewnol wedi'i gofrestru. Bydd penderfyniad pennaeth y ganolfan ar p'un a ddylid symud ymlaen ag apêl yn dibynnu ar drefniadau apeliadau mewnol y ganolfan. Dim ond dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, er enghraifft cau canolfan yn barhaol, y bydd corff dyfarnu'n derbyn apêl yn uniongyrchol gan ymgeisydd mewnol.

## Sut i apelio

48. Cyn ymgymryd ag apêl, gallai fod o gymorth pe byddai Apelydd yn trafod y sefyllfa gyda swyddog apeliadau'r corff dyfarnu perthnasol. Bydd trafodaethau o'r fath weithiau'n datrys y mater heb orfod troi at apêl.

49. **Mae'n rhaid gwneud y cais am apêl o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn y penderfyniad gwreiddiol a dylai nodi sail yr apêl yn glir ac yn gryno.** Gellir defnyddio ffurflen y CGC *Cais am apêl* – gweler **tudalen 19**. **Efallai y bydd cyrff dyfarnu'n gwrthod apeliadau a wneir y tu allan i'r amserlen hon.**

## Beth sy'n digwydd yn ystod cam rhagarweiniol apêl?

50. Mae cam rhagarweiniol proses apeliadau yn cynnwys ymchwiliad i'r achos gan swyddog neu swyddogion o'r corff dyfarnu perthnasol. Ni fydd gan y swyddog unrhyw ddiddordeb personol yn yr achos, ac ni fydd wedi bod â chysylltiad â'r achos yn y gorffennol. Bydd y cam rhagarweiniol yn ystyried y cais ysgrifenedig gan yr Apelydd a bydd yn cynnwys adolygiad o'r holl ganllawiau perthnasol, unrhyw gynsail a'r gweithdrefnau a ddilynwyd wrth gyrraedd y penderfyniad sy'n destun i'r apêl.

51. Gall y corff dyfarnu:

- Gyfeirio'r mater ar gyfer ei ystyried o'r newydd at unigolyn priodol nad yw wedi ymwneud â'r mater yn flaenorol neu nad oes ganddo ddiddordeb personol yn y mater. Ar y cam hwn, gellir peidio â chadarnhau'r apêl, neu ei gadarnhau yn gyfangwbl neu'n rhannol.

- Peidio â derbyn yr apêl oherwydd nad oes rhesymau dilys neu resymol dros apelio wedi'u rhoi.

Ar ôl cwblhau'r broses adolygu, anfonir llythyr canlyniad y cam rhagarweiniol at yr Apelydd a fydd yn cynnwys manylion y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Ar y cam hwn, gellir cadarnhau'r apêl yn llawn, ei gadarnhau'n rhannol neu beidio â'i gadarnhau.

Os yw'r Apelydd yn dal i fod yn anfodlon â chanlyniad yr ystyriaeth hon, gall symud ymlaen at wrandawiad apêl. Rhaid cyflwyno cais am wrandawiad apêl o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn llythyr canlyniad yr apêl ragarweiniol. Bydd cyrff dyfarnu'n gwrthod apeliadau a wneir y tu allan i'r amserlen hon.

## Gwrandawiad yr apêl

52. Os yw Apelydd yn anghytuno â chanlyniad y cam rhagarweiniol, dylid anfon cais ysgrifenedig am wrandawiad apêl at y corff dyfarnu perthnasol. Mae rhestr o fanylion cyswllt y cyrff dyfarnu ar gael yn **Atodiad A, tudalen 22.** Dylai'r Apelydd gadarnhau'r trefniadau penodol ar gyfer cyflwyno apeliadau, ar wefan y corff dyfarnu perthnasol. Gellir defnyddio ffurflen y CGC *Cais am apêl* (**gweler tudalen 19**). Bydd y corff dyfarnu yn gwneud trefniadau am wrandawiad.

53. **Mae'n rhaid i'r cais hwn am apêl gael ei wneud o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn canlyniad yr apêl ragarweiniol.**

54. Bydd y weithdrefn i'w dilyn yng ngwrandawiad yr Apêl yn cael ei nodi ym **mharagraffau 55-78**.

# 4 Y weithdrefn ar gyfer gwrandawiadau apêl

## Cyn y gwrandawiad

55. Bydd yr Apelydd wedi gwneud cais am wrandawiad apêl o fewn 14 diwrnod calendr ar ôl derbyn canlyniad y cam rhagarweiniol.

56. **Mae'n rhaid i'r cais nodi'r rhesymau dros apelio a'r holl ddogfennaeth ategol yn glir. Mae'n bwysig fod yr holl ddogfennaeth berthnasol yn cael ei chynnwys ar y pwynt hwn, gan y bydd cyfleoedd cyfyngedig i gyflwyno gwybodaeth ategol yn ddiweddarach yn y broses. Mae cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i gyflwyno deunydd i wrthwynebu unrhyw gais am apêl.**

    **Rhaid** i'r rhesymau dros yr apêl a gyflwynir fod yr un fath â'r rhesymau dros yr apêl a gyflwynir ar y diwrnod. Os oes unrhyw wahaniaethau, neu os cyflwynir deunydd newydd, bydd angen i'r panel apeliadau benderfynu a fyddent yn derbyn neu'n gwrthod y rhesymau newydd a/neu'r deunydd newydd, neu efallai y bydd gwrandawiad yr apêl yn cael ei ohirio.

57. Ar gyfer gwrandawiad apêl, bydd corff dyfarnu fel arfer yn trefnu panel o dri neu bedwar o bobl. Byddant yn cael eu dewis o gronfa fwy o unigolion nad ydynt wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y corff dyfarnu ac sydd wedi'u hyfforddi yn y dasg o benderfynu ar apeliadau.

    Bydd o leiaf un o aelodau'r panel yn 'aelod annibynnol'. Unigolion nad ydynt wedi cael eu cyflogi gan y corff dyfarnu hwnnw, nac wedi cael unrhyw gysylltiad arall gyda nhw yn y bum mlynedd ddiwethaf o leiaf yw aelodau annibynnol.

58. Bydd disgwyl i Apelwyr gymryd rhan yng ngwrandawiad yr apêl. Gellid cynnal y gwrandawiad yn rhithiol, ar bapur neu wyneb yn wyneb gyda'r ffurf i'w gytuno â'r Apelydd ymlaen llaw.

    Ar gyfer gwrandawiad ar bapur, nid yw paragraffau 59,60,61,62,63,64,65 a 70 yn berthnasol.

    NODER - 'Gellid cynnal y gwrandawiad yn rhithiol, ar bapur neu wyneb yn wyneb gyda'r ffurf i'w chytuno â'r Apelydd ymlaen llaw.

59. Os nad yw'r Apelydd yn mynychu gwrandawiad panel

60. Gallai'r Apelydd ddod â ffrind, cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb ond **rhaid** darparu enwau a manylion cyswllt pob cynrychiolydd i'r corff dyfarnu **yn ddim hwyrach na** 7 diwrnod calendr cyn dyddiad y gwrandawiad. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r nifer o fynychwyr ar ran yr Apelydd fod yn fwy na thri.

61. Gallai'r cyrff dyfarnu hefyd alw unrhyw gynrychiolwyr sy'n berthnasol i'r achos. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r nifer o gynrychiolwyr gan gorff dyfarnu fod yn fwy na thri.

62. **Ni fydd** ymgeiswyr mewnol a/neu eu rhieni/gofalwyr yn cael eu galw fel cynrychiolwyr ond gallant fynychu i arsylwi gyda chaniatâd blaenorol Cadeirydd y panel. **Nid** oes gan y sawl sy'n arsylwi yr hawl i gyflwyno achosion neu gymryd rhan wrth gwestiynu unrhyw bartïon yn y gwrandawiad, ond gallant wneud datganiadau yn ôl disgresiwn Cadeirydd y panel.

63. Gall unrhyw un arall sy'n arsylwi fod yn bresennol mewn gwrandawiadau gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd ymlaen llaw yn ddim hwyrach na saith diwrnod calendr cyn dyddiad y gwrandawiad. **Rhaid** i'r sawl sy'n arsylwi gadw at brotocolau gwrandawiad yr apêl.

64. Ni chaniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn gwrandawiad apêl; nid swyddogaeth gyfreithiol yw gwrandawiad apêl.

65. Os yw'r Apelydd yn dymuno cael cynrychiolaeth gyfreithiol, **rhaid** trafod hyn â'r corff dyfarnu cyn bod dyddiad gwrandawiad yn cael ei gadarnhau. Os cytunir ar gynrychiolaeth gyfreithiol i'r Apelydd, gall y corff dyfarnu gael cynrychiolaeth gyfreithiol hefyd.

**Ni fydd** corff dyfarnu'n atebol am dalu unrhyw ffioedd proffesiynol yr Apelydd.

66. Bydd copi o'r holl ddeunyddiau (gohebiaeth/dogfennau/adroddiadau ac ati) sy'n berthnasol i'r apêl yn cael ei anfon ymlaen i aelodau'r panel apeliadau a'r Apelydd yn ddim hwyrach na saith diwrnod calendr cyn y gwrandawiad. Dim ond dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y bydd y Cadeirydd yn caniatáu i ddeunyddiau ychwanegol gael eu cyflwyno ar ddiwrnod y gwrandawiad.

67. Lle ystyrir bod unrhyw ddeunydd o natur gyfrinachol gan y corff dyfarnu, gall y corff dyfarnu ryddhau deunydd o'r fath i'r gwrandawiad apêl o dan amodau a fyddai'n angenrheidiol i ddiogelu cyfrinachedd y deunydd. Bydd y corff dyfarnu'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw rag-amodau perthnasol dan ddeddfwriaeth diogelu data.

## Yng ngwrandawiad yr apêl

68. Bydd gwrandawiad yr apêl ar ffurf ail-ystyried y dystiolaeth, sylwadau ac adroddiadau a ddarparwyd i'r corff dyfarnu a gan y corff dyfarnu, a sylwadau a gyflwynwyd gan yr Apelydd.

69. **Mewn apêl sy'n ymwneud ag ail-wiriad clerigol, adolygiad o farcio neu adolygiad o gymedroli,** y prawf a gymhwysir gan y panel fydd:

a) a oes gwall marcio neu gymedroli, neu adolygiad o wall marcio neu adolygiad o wall cymedroli wedi digwydd.

b) p'un a yw'r corff dyfarnu wedi cymhwyso'u gweithdrefnau'n gyson, yn gywir ac yn deg wrth ffurfio barn; a/neu

**Mewn apêl sy'n ymwneud â chamymddwyn,** bydd y panel yn ystyried, yn ôl pwysau tebygolrwydd, p'un a oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r canfyddiad o gamymddwyn a pha mor briodol oedd y gosb neu'r sancsiwn gwreiddiol o ystyried rheoliadau Camymddwyn y CGC, cynseiliau corff dyfarnu ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan yr Apelydd neu'r corff dyfarnu.

**Mewn apêl sy'n ymwneud â threfniadau mynediad, addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig,** bydd y panel yn ystyried p'un a oedd camau gweithredu'r corff dyfarnu'n gyson â'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd ac yn deg (mae hyn yn cynnwys cyfarfod y dyletswyddau cyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol).

70. Amlinellir y weithdrefn arferol i'w dilyn yn ystod gwrandawiadau apêl isod.

70.1 Bydd aelod o'r panel yn Cadeirio'r gwrandawiad.

70.2 Bydd y corff dyfarnu yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnod o'r trafodion am saith mlynedd.

70.3 Bydd y Cadeirydd yn cynnal cyflwyniadau, yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn ac os yn briodol, yn darparu crynodeb o'r achos.

Bydd gofyn i bob aelod gadarnhau ar ddechrau'r gwrandawiad apêl nad ydyn nhw wedi cael cysylltiad blaenorol, nac unrhyw ddiddordeb personol â'r achos. Yn benodol, nad ydyw wedi bod yn cymryd rhan mewn unrhyw farcio, cymedroli, adolygiad o farcio neu adolygiad o gymedroli gwaith yr ymgeisydd, neu ganolfan yr ymgeisydd, yn y gyfres arholiadau y mae'r apêl yn deillio ohoni.

Bydd yr aelod(au) annibynnol yn gwneud eu hunain yn hysbys ar ddechrau gwrandawiad yr apêl.

Bydd y Cadeirydd yn nodi mai rôl pob Aelod o'r Panel yw sicrhau bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau a fanylir arnynt yn y ddogfen hon.

70.4 Gallai'r Cadeirydd, yn ôl eu disgresiwn, dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan drydydd parti nad yw'n gallu neu nad yw'n fodlon mynychu'r gwrandawiad (**gweler paragraff 66, tudalen 13**).

70.5 Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Apelydd i gyflwyno'i achos i'r panel.

70.6 Bydd y Cadeirydd yna'n cynnig y cyfle i gynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu gwestiynu'r Apelydd.

70.7 Bydd y Cadeirydd ac aelodau'r panel yna'n cael y cyfle i gwestiynu'r Apelydd.

70.8 Bydd y Cadeirydd yna'n gwahodd cynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu i gyflwyno'u hachos i'r panel.

70.9 Bydd y Cadeirydd yn cynnig y cyfle i'r Apelydd gwestiynu cynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu.

70.10 Bydd y Cadeirydd ac aelodau'r panel yna'n cael y cyfle i gwestiynu cynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu.

70.11 Bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i gynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu grynhoi ei achos, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. **Ni fydd cyrff dyfarnu yn cyflwyno gwybodaeth newydd ar y cam hwn.**

70.12 Bydd y Cadeirydd yna'n rhoi cyfle i'r Apelydd grynhoi ei achos, os yw'n dymuno gwneud hynny. **Ni fydd angen i Apelydd gyflwyno gwybodaeth newydd ar y cam hwn.**

70.13 Bydd y Cadeirydd yna'n gwahodd yr Apelydd a'i gynrychiolydd/cynrychiolwyr a chynrychiolydd/cynrychiolwyr y corff dyfarnu i dynnu'n ôl, ond i barhau i fod ar gael am gyfnod byr o amser wrth i'r panel benderfynu p'un a ydynt am ofyn unrhyw gwestiynau pellach naill ai i'r Apelydd neu gynrychiolydd/cynrychiolwyr y corff dyfarnu.

70.14 Os bydd y panel yn penderfynu nad ydyn nhw am ofyn cwestiynau pellach, bydd gofyn i'r Apelydd a'i gynrychiolydd/wyr a chynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu ddychwelyd i'r gwrandawiad.

70.15 Ar ddiwedd yr holl gwestiynau, bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Apelydd, a'i gynrychiolydd/wyr, a chynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu fod y gwrandawiad nawr wedi dod i ben ac y gallant adael.

71. Bydd y panel yn trafod yn breifat. I ddod i benderfyniad, bydd y panel apeliadau yn defnyddio, fel y bo'n briodol, y profion a nodir ym **mharagraff 69, tudalen 13**. Lle mae'r apêl yn ymwneud â gweithdrefnau'r corff dyfarnu, bydd y panel apeliadau hefyd yn ystyried p'un a oedd unrhyw gamau adferol a gymerwyd wedyn gan y corff dyfarnu yn ddigon i ddatrys y mater.

Gall y panel apeliadau benderfynu cadarnhau'r apêl neu beidio â'i chadarnhau. Os bydd yr apêl yn cael ei chadarnhau, gallai'r panel:

- gyfeirio'r mater yn ôl i'r swyddog corff dyfarnu priodol am ystyriaeth bellach ar sail o'r fath fel y gall y panel roi cyfarwyddyd; neu
- gyfarwyddo'r corff dyfarnu i wneud gwaith pellach;

- mewn apêl camymddwyn, dileu neu gadarnhau'r canfyddiad o gamymddwyn **a/neu** gadarnhau neu ddiwygio'r sancsiwn.

## Ar ôl gwrandawiad yr apêl

72. P'un a yw'r apêl yn cael ei chadarnau ai peidio, gallai'r panel wneud argymhellion i'r corff dyfarnu ar faterion/pryderon a ddaeth i'r amlwg yn ystod gwrandawiad yr apêl.

73. **Bydd unrhyw waith pellach yn cael ei gynnal drwy gydymffurfio'n llawn â'r gofynion rheoleiddiol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt rhwng byrddau'r CGC a'r cyrff dyfarnu.**

74. Nid yw'r ffaith bod panel yn cadarnhau apêl yn golygu o reidrwydd y bydd marciau neu radd ymgeisydd yn newid. Nid arbenigwyr pwnc sy'n ffurfio'r paneli felly efallai na fydd yn rhoi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu roi marc penodol. Dim ond arholwr sydd wedi derbyn hyfforddiant a chael ei safoni sy'n gallu dyfarnu marc.

75. Os oedd yr Apelydd a'r corff dyfarnu'n bresennol yn y gwrandawiad, ni fydd yr Apelydd neu gynrychiolwyr y corff dyfarnu'n cael gwybod ar lafar am benderfyniad y panel apeliadau ar ddiwrnod y gwrandawiad fel arfer. Bydd y penderfyniad yn cael ei anfon i'r Apelydd, pennaeth y ganolfan (lle y bo'n berthnasol) ac i gynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu yn ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad.

76. Gellir rhoi adroddiad o grynodeb ysgrifenedig neu drawsgrifiad ysgrifenedig o'r gwrandawiad i'r Apelydd ac i gynrychiolydd/cynrychiolwyr y corff dyfarnu o fewn 28 diwrnod calendr. **Bydd yr adroddiad neu'r trawsgrifiad hwn yn gyfrinachol i'r sawl sy'n ymwneud â'r apêl**.

77. Bydd yr Apelydd a chynrychiolwyr y corff dyfarnu'n cael y cyfle i gywiro gwallau a wnaed o ran ffeithiau yn yr adroddiad o fewn 14 diwrnod calendr. Penderfyniad Cadeirydd y panel apeliadau yn unig fydd p'un a fydd addasiadau a awgrymwyd gan yr Apelydd neu gan gynrychiolydd/wyr y corff dyfarnu yn cael eu derbyn.

78. **Bydd y gwrandawiad gan y panel apeliadau yn cwblhau gweithdrefnau apeliadau mewnol y corff dyfarnu. Ni fydd apêl bellach yn cael ei derbyn gan y corff dyfarnu.**

# 5 Llwybrau apelio pellach

## Trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol, ystyriaeth arbennig a gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

79. **Ar gyfer canolfannau yn Lloegr, Cymru, a Gogledd Iwerddon**, sy'n anfodlon o hyd gyda phenderfyniad gwrandawiad yr apêl, gellir apelio i'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) perthnasol. Noder bod y gwasanaeth hwn wedi'i gyfyngu i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch, TGAU, Cymwysterau Technegol (rhan o Lefel T) a Chymwysterau Project Lefel 3 (CPE). Mae'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau, a ddarperir gan Ofqual a Chymwysterau Cymru yng Nghymru, wedi'i sefydlu i sicrhau bod ysgolion a cholegau, ac ymgeiswyr a rhieni, yn fodlon bod y graddau a gyhoeddwyd gan y corff dyfarnu mor deg a chywir ag y gallant fod.

    Ar gyfer ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon sy'n sefyll cymwysterau TAG UG a Safon Uwch a gynigir gan CBAC, gellir gwneud apêl i Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau CCEA Regulation.

80. I weld manylion am y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau, cyfeiriwch at wefan y rheoleiddiwr cymwysterau perthnasol.

## Camymddwyn

81. **Ar gyfer canolfannau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon**, mae penderfyniad y Pwyllgor neu banel yr Apeliadau yn derfynol. Nid oes llwybrau apelio pellach yn erbyn penderfyniadau a wneir gan gyrff dyfarnu mewn achosion o gamymddwyn. Nid yw Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn.

82. **Ar gyfer canolfannau yng Nghymru**, ar gyfer llwybrau apelio pellach yn erbyn penderfyniadau a wneir gan gyrff dyfarnu mewn achosion o gamymddwyn, cyfeiriwch at wefan y rheoleiddiwr – Cymwysterau Cymru.

# 6 Amserlenni

83. Mae'r cyrff dyfarnu'n anelu at gwblhau apêl ragarweiniol o fewn 42 diwrnod calendr i dderbyn cais dilys.

Mae'r cyrff dyfarnu'n anelu at gwblhau apêl ragarweiniol o fewn 70 diwrnod calendr i dderbyn cais dilys.

# 7 Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill

84. Yn ystod unrhyw gyfres arholiadau, bydd amgylchiadau'n codi a fydd yn achosi i gorff dyfarnu wneud penderfyniadau a allai effeithio ar ganlyniadau ymgeisydd. Lle mae'r penderfyniadau hyn yn cynnwys elfen o farn, gallan nhw fod yn destun adolygiad gan swyddogion y corff dyfarnu.

**Dylai pennaeth canolfan sy'n bryderus am benderfyniadau gweinyddol o'r fath gysylltu â swyddog apeliadau'r corff dyfarnu perthnasol i drafod ei b/phryderon.**

85. Mae'r mathau mwyaf cyffredin o benderfyniadau gweinyddol eraill a allai fod yn amodol ar adolygiad wedi'u rhestru isod. **Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gallai mathau eraill o benderfyniadau gweinyddol fod yn destun adolygiad.**

- Penderfyniadau a wneir mewn achosion o fod yn hwyr iawn yn cyrraedd.
- Penderfyniadau a wneir mewn achosion o sgriptiau coll.
- Penderfyniadau'n ymwneud â defnyddio aegrotat/amcangyfrifon graddau. (I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen CGC Estimating-marks-guidance-for-centres-06.03.19-8-1-1-Copy-1.pdf (jcq.org.uk)

86. **Dylid gwneud cais am adolygiad o benderfyniad gweinyddol o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn y penderfyniad gwreiddiol a dylai nodi'r rhesymau dros yr adolygiad yn glir ac yn gryno.** Dylai'r Apelydd gadarnhau'r trefniadau penodol ar gyfer cyflwyno apeliadau, ar wefan y corff dyfarnu perthnasol. Gellir defnyddio ffurflen y CGC *Cais am apêl*, gan roi tic yn y blwch 'Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill' – gweler **tudalen 17**.

**Efallai y bydd cyrff dyfarnu'n gwrthod adolygiadau a wneir y tu allan i'r amserlen hon.**

87. Mae'r cyrff dyfarnu'n anelu at gwblhau'r adolygiadau hyn o fewn 42 diwrnod calendr i dderbyn y cais.

88. Gan mai adolygiadau yw'r achosion hyn ac nid apeliadau ffurfiol, **ni fyddant** yn destun i wrandawiad apêl.

# 8 Cais am apêl neu adolygiad o benderfyniad gweinyddol

**CGC/App1**

Rhif y Ganolfan

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Y manylion a ddarperir ar neu fel atodiad i'r ffurflen hon yn sail i'r achos a gyflwynwyd gan yr Apelydd.

Wrth gwblhau'r manylion, dylid talu sylw arbennig i **adran 10** y ffurflen hon, sy'n amlinellu'r rhesymau dros apelio ac yn crynhoi eich rhesymau dros apelio. Os oes angen eglurhad neu gymorth arnoch, cysylltwch â'r corff dyfarnu perthnasol.

**Nodwch y math o apêl neu adolygiad i'w gychwyn**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwblhau Gwasanaeth ar ôl y Canlyniadau* | ☐ | Camymddwyn | ☐ |
| Trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig | ☐ | Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill | ☐ |

Os yw hon yn apêl yn erbyn canlyniad ail-wiriad clerigol, adolygiad o farcio, adolygiad o gymedroli neu benderfyniad trefniadau mynediad/ystyriaeth arbennig, nodwch isod p'un a yw'n gais am apêl ragarweiniol neu wrandawiad apêl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Apêl ragarweiniol | ☐ | Gwrandawiad yr Apêl** | ☐ |

***Noder na all Apelydd symud ymlaen at apêl ragarweiniol tan y bydd yr ail-wiriad clerigol, yr adolygiad o'r marcio neu'r adolygiad o'r cymedroli wedi'i gwblhau a'r canlyniad wedi'i gadarnhau.**

****Noder na all Apelydd symud ymlaen at wrandawiad o'r apêl oni bai ei fod wedi cychwyn achos apêl ragarweiniol ac wedi'i chwblhau.**

1. Enw'r Apelydd:

.........................................................................................................

2. Enw'r Ganolfan:

.........................................................................................................

3. Cyfeiriad:

.........................................................................................................

.........................................................................................................

.........................................................................................................

.........................................................................................................

4. Rhif ffôn: ..............................................................

5. Enw a swydd yr unigolyn i gysylltu ag ef/hi yn y ganolfan:

.........................................................................................................

6. Cyfeiriad e-bost y person cyswllt: .................................................................

7. Cyfres arholiadau: ..............................................................................

8. Teitl a lefel y fanyleb:

.........................................................................................................

.........................................................................................................

9. Enw(au) a rhif(au) ymgeiswyr y rheini yr ydych yn apelio ar eu rhan (lle y bo'n berthnasol).

| Enw'r ymgeisydd | Rhif yr ymgeisydd | Cod y gydran/uned |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

(Parhewch ar daflen arall os oes angen).

10. Rhesymau dros apelio:

Nodwch y rhesymau dros yr apêl hon, gan barhau dros y dudalen fel y bo angen, ac atodwch yr holl ddogfennaeth ategol. Os yw'r ganolfan yn mynychu gwrandawiad, bydd cyfleoedd ar gyfer codi pwyntiau pellach yn ystod y gwrandawiad, ond **ni ddylid** cyflwyno tystiolaeth sylweddol newydd ar ddiwrnod y gwrandawiad. Er budd pawb, dylid nodi'n glir y rhesymau dros apelio yn y cais.

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

11. Enwau a swyddi'r bobl sy'n mynychu gwrandawiad yr Apêl

..................................................................................................................

..................................................................................................................

Llofnodwyd:..................................................................... Dyddiad: ......../......../........
(Apelydd)

| |
|---|
| **Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi i'r corff dyfarnu perthnasol.**<br>**Os nad ydych wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn pum diwrnod gwaith, cysylltwch â'r corff dyfarnu.** |

# Atodiad A

**Manylion cyswllt y cyrff dyfarnu**

**AQA**

Gweler gwefan AQA am fanylion am sut i gyflwyno apêl:
AQA | After results | Post-results services | Appeals

appeals@aqa.org.uk

**City & Guilds**

policy@cityandguilds.com
https://direc.to/hTsw

**CCEA**

appealsmanager@ccea.org.uk

**NCFE**

appeals@ncfe.org.uk

**OCR**

appeals@ocr.org.uk

Gweler gwefan OCR am fanylion am sut i gyflwyno apêl:
https://www.ocr.org.uk/administration/general-qualifications/post-results/appeals/

**Pearson**

Gweler gwefan Pearson am fanylion am sut i gyflwyno apêl:
Pearson Post Results services/appeals

Os oes angen cyngor arnoch chi, anfonwch e-bost at:
edexcelappeals@pearson.com

**CBAC**

Tîm Apeliadau
apeliadau@cbac.co.uk